<u>Cyngor Sir Caerfyrddin</u>

<u>Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014</u>

**Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (Rheoli Cŵn) Cyngor Sir Caerfyrddin 2016**

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin ("y Cyngor") drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus canlynol dan adran 59 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014:

Gellir cyfeirio at y Gorchymyn hwn fel 'Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (Rheolaethau ar Gŵn) Cyngor Sir Caerfyrddin 2016'.

Bydd y Gorchymyn hwn yn dod i rym ar 1af Gorffennaf, 2016 a bydd yn parhau mewn grym am gyfnod o dair blynedd.

**<u>Cyflwyniad</u>**

(a) Mae pobl nad ydynt yn glanhau baw eu cŵn oddi ar dir sy'n hygyrch i'r cyhoedd yn peri niwsans i eraill. Mae presenoldeb baw cŵn yn berygl posibl i bob aelod o'r cyhoedd. Mae'n beryglus i'r iechyd, yn difwyno'r tir, a gall ddifwyno pobl a'u heiddo.

(b) Os na chânt eu goruchwylio'n iawn a'u cadw dan reolaeth, gall cŵn nad ydynt ar dennyn mewn mannau cyhoeddus achosi damweiniau ffordd, a gallant beri niwsans i'r cyhoedd ac i anifeiliaid eraill, neu eu hanafu.

(c) Gall cŵn sydd mewn mannau chwarae i blant droi yn ymosodol os cânt eu dychryn. Gallant faeddu yn yr ardaloedd hyn hefyd, gan eu difwyno a pheryglu iechyd y plant sy'n eu defnyddio.

(d) Mae'r Cyngor yn sicr bod yr ymddygiad a nodir uchod wedi cael effaith niweidiol ar ansawdd bywyd pobl yn Sir Gaerfyrddin, a'i fod yn debygol o barhau i wneud hynny.

(e) Mae'r Gorchymyn hwn yn ceisio atal neu leihau'r effeithiau niweidiol y cyfeirir atynt uchod, drwy osod cyfyngiadau a gofynion rhesymol ar bobl sydd yn gyfrifol am gŵn ar dir cyhoeddus. Mae'n ceisio hwyluso defnydd diogel o'n mannau cyhoeddus, gan gydnabod ar yr un pryd y dylai fod gan bobl yr hawl i ymarfer eu cŵn heb dennyn mewn ardaloedd cyhoeddus, cyhyd ag y bod eu cŵn dan reolaeth ac yn ymddwyn yn briodol.

**Troseddau**

Rhan 1 - Cŵn yn baeddu

1. Os yw ci yn baeddu ar unrhyw adeg ar dir y mae'r rhan hon o'r Gorchymyn yn berthnasol iddo, ac os nad yw'r sawl sydd yn gyfrifol am y ci ar y pryd yn symud y baw o'r tir ar unwaith, bydd y person hwnnw yn euog o drosedd oni bai ei fod yn gallu dangos:-

   (a) bod ganddo esgus rhesymol dros beidio â gwneud hynny; neu

   (b) bod y perchennog, y preswylydd, neu berson neu awdurdod arall sy'n gyfrifol am y tir wedi cydsynio (yn gyffredinol neu'n benodol) iddo beidio â gwneud hynny;

2. Mae'r rhan hon o'r Gorchymyn yn berthnasol i bob man cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin.

   At y dibenion hyn, ystyr "man cyhoeddus" yw unrhyw fan y mae gan y cyhoedd, neu unrhyw garfan o'r cyhoedd, fynediad iddo, drwy dâl neu fel arall, fel hawl neu yn rhinwedd caniatâd datganedig neu ymhlyg.

3. At ddiben y rhan hon o'r Gorchymyn:

   (a) bydd gosod y baw mewn cynhwysydd ar y tir sydd wedi ei ddarparu at y diben hwn, neu i waredu gwastraff, yn ddigonol o ran symud y baw o'r tir:

   (b) ni fydd peidio â bod yn ymwybodol fod y ci wedi baeddu (naill ai oherwydd nad oedd y sawl a oedd yn gyfrifol yn y cyffiniau neu fel arall), neu beidio â meddu ar ddyfais neu ffordd addas arall o symud y baw, yn esgus rhesymol dros beidio â symud y baw;

Rhan 2 - Cŵn ar Dennyn drwy Gyfarwyddyd

4. Bydd person sy'n gyfrifol am gi yn euog o drosedd os ydyw ar unrhyw adeg, ar dir y mae'r rhan hon o'r Gorchymyn yn berthnasol iddo, yn methu cydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir gan swyddog awdurdodedig y Cyngor, i roi'r ci ar dennyn nad yw'n fwy na 2 fetr o hyd, a'i gadw arno am y cyfnod a/neu dan yr amgylchiadau a nodir gan y swyddog, oni bai ei fod yn gallu dangos:-

(a) bod ganddo esgus rhesymol dros beidio â gwneud hynny; neu

(b) bod y perchennog, y preswylydd, neu berson neu awdurdod arall sy'n gyfrifol am y tir wedi cydsynio (yn gyffredinol neu'n benodol) iddo beidio â gwneud hynny.

5. At y dibenion hyn, ystyr "tennyn" yw unrhyw raff, cortyn, tennyn neu eitem debyg a ddefnyddir i glymu, rheoli neu rwystro ci, ond nid yw'n cynnwys unrhyw eitem o'r fath nad yw'n cael ei defnyddio i rwystro'r ci fel ei fod dan reolaeth agos yr unigolyn.

6. Mae'r rhan hon o'r gorchymyn yn berthnasol i bob man cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin.

At y dibenion hyn, ystyr "man cyhoeddus" yw unrhyw fan y mae gan y cyhoedd, neu unrhyw garfan o'r cyhoedd, fynediad iddo, drwy dâl neu fel arall, fel hawl neu yn rhinwedd caniatâd datganedig neu ymhlyg.

7. At ddibenion y rhan hon o'r Gorchymyn, gall swyddog awdurdodedig y Cyngor ddweud wrth rywun am roi ci ar dennyn a'i gadw arno dim ond os yw rheolaeth o'r fath yn rhesymol angenrheidiol i atal niwsans neu i atal ymddygiad gan y ci sy'n debygol o achosi annifyrrwch neu aflonyddwch i rywun arall, neu boeni neu aflonyddu ar unrhyw anifail.

8. Yn y rhan hon o'r Gorchymyn, ystyr "swyddog awdurdodedig y Cyngor" yw person a awdurdodwyd yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod i roi cyfarwyddyd dan y Gorchymyn hwn. Gall hyn gynnwys unigolyn nad yw'n cael ei gyflogi gan y Cyngor.

Rhan 3 - Gwahardd Cŵn

9. Bydd y sawl sy'n gyfrifol am gi yn euog o drosedd os ydyw ar unrhyw adeg yn mynd â'r ci ar dir, neu'n caniatáu i'r ci fynd ar dir neu aros ar dir, y mae'r rhan hon o'r Gorchymyn yn berthnasol iddo, oni bai ei fod yn gallu dangos:-

(a) bod ganddo esgus rhesymol dros wneud hynny; neu

(b) bod y perchennog, y preswylydd, neu berson neu awdurdod arall sy'n gyfrifol am y tir wedi cydsynio (yn gyffredinol neu'n benodol) iddo wneud hynny;

10. Mae'r rhan hon o'r Gorchymyn yn berthnasol i bob man chwarae i blant yn Sir Gaerfyrddin sydd yn yr awyr agored.

At y dibenion hyn, dylid ystyried bod tir sydd wedi'i orchuddio yn dir sydd "yn yr awyr agored" os yw'n agored ar o leiaf un ochr.

11. At ddibenion y rhan hon o'r Gorchymyn:-

(a) Ystyr "man chwarae i blant" yw man sydd wedi'i neilltuo er mwyn i blant chwarae ynddo, ac sy'n cynnwys offer chwarae plant fel llithren, siglen, si-so, ffrâm ddringo neu gyfarpar chwarae arall tebyg.

(b) Mae man chwarae i blant yn "gaeedig" os yw wedi'i amgylchynu ar bob ochr â ffensys, gatiau, waliau neu adeiladweithiau eraill sy'n nodi maint y man chwarae.

**Eithrio Pobl Anabl**

12. Nid yw'r darpariaethau yn y Gorchymyn hwn sy'n ymwneud â chŵn yn baeddu yn berthnasol i bobl sydd:

(a) wedi eu cofrestru'n rhannol ddall neu'n ddall, ar gofrestr a luniwyd dan adran 29 Deddf Cymorth Gwladol 1948; neu

(b) wedi eu cofrestru fel rhai sydd â "nam ar y golwg", "nam difrifol ar y golwg" neu "nam ar y golwg a'r clyw sydd, gyda'i gilydd, yn cael effaith sylweddol ar eu bywyd bob dydd", ar gofrestr a luniwyd dan adran 18 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; neu

(c) ag anabledd sy'n effeithio ar eu symudedd, medrusrwydd corfforol, cydsymud corfforol, neu eu gallu i godi, cario, neu fel

arall symud gwrthrychau bob dydd, sy'n golygu na ellir yn rhesymol ddisgwyl iddynt symud y baw; neu

(d) ag anabledd arall, sy'n golygu na ellir yn rhesymol ddisgwyl iddynt symud y baw.

13. Nid yw'r darpariaethau yn y Gorchymyn hwn sy'n ymwneud â gwahardd cŵn yn berthnasol i gŵn a hyfforddwyd gan elusen gofrestredig i gynorthwyo pobl sydd ag anabledd, sef cŵn y mae pobl anabl yn dibynnu arnynt am gymorth.

14. At ddibenion y Gorchymyn hwn, ystyr "anabledd" yw cyflwr a ystyrir yn anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010, ac ystyr "person anabl" yw rhywun sy'n meddu ar anabledd o'r fath.

**Eithrio Cŵn Gwaith**

15. Ni fydd dim yn y Gorchymyn hwn yn berthnasol i weithgareddau arferol ci gwaith, pan fydd y ci yn gweithio.

Mae hyn yn cynnwys cŵn sy'n cael eu defnyddio ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig â chwilio ac achub brys, gorfodi'r gyfraith a gwaith lluoedd arfog Ei Mawrhydi; cŵn fferm sy'n cael eu defnyddio i gorlannu neu yrru anifeiliaid; cŵn sy'n cael eu defnyddio'n gyfreithlon i ddal neu ddifa fermin, a chŵn sy'n cael eu defnyddio'n gyfreithlon at ddibenion hela.

**Materion Eraill**

16. At ddibenion y Gorchymyn hwn, ystyrir bod unigolyn sydd yn gyson â chi yn ei feddiant yn gyfrifol am y ci ar unrhyw adeg, oni bai fod rhywun arall, ar yr adeg honno, yn gyfrifol am y ci.

17. Os yw unigolyn sy'n gyfrifol am gi yn dymuno dibynnu ar unrhyw rai o'r eithriadau a nodir yn y gorchymyn hwn, bydd rhaid iddo brofi ei fod yn cwrdd â gofynion yr eithriad y mae'n dibynnu arni.

**Cosbau**

18. Bydd rhywun sy'n euog o drosedd dan y gorchymyn hwn, o gael collfarn ddiannod, yn agored i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

19. Gellir rhoi Hysbysiad Cosb Benodedig i rywun sy'n torri'r Gorchymyn hwn. Mae hyn yn cynnig iddynt gyfle i gael eu rhyddhau o fod yn agored i gollfarn am y drosedd drwy dalu cosb benodedig.

Dyddiedig y 9fed diwrnod o Mehefin 2016

Gosodwyd Sêl Gyffredin
**Cyngor Sir Caerfyrddin**
ar y ddogfen hon ym mhresenoldeb:

Linda Rees-Jones

Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith

14691

Ar y 10fed diwrnod o fis Mehefin 2019 cafodd y Gorchymyn hwn ei ymestyn gan Gyngor Sir Caerfyrddin am gyfnod pellach o 3 blynedd o 1 Gorffennaf 2019 ymlaen.

Linda Rees-Jones

Pennaeh Gweinyddiaeth a'r Gyfraith

Ar y 9fed diwrnod o fis Mai 2022 cafodd y Gorchymyn hwn ei ymestyn gan Gyngor Sir Caerfyrddin am gyfnod pellach o 3 blynedd o 1 Gorffennaff 2022 ymlaen

Linda Rees-Jones

Pennaeh Gweinyddiaeth a'f Gyfraith

Ar y 11eg diwrnod o fis Mehefin 2025, cafodd y Gorchymyn hwn ei ymestyn gan Gyngor Sir Caerfyrddin am gyfnod pellach o 3 blynedd o 1 Gorffennaf 2025 ymlaen.

Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil